

Y Pwyllgor Menter a Busnes - Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc

Cyfraniadau fideo

Mae'r Tîm Allgymorth wedi cynhyrchu pecyn fideo sy'n cynnwys cyfraniadau gan fyfyrwyr, pobl ifanc sy'n mynd drwy'r broses o ddechrau busnes, perchnogion busnesau ifanc, athrawon a hyfforddwyr ledled Cymru.

Yn ystod pob cyfweiliad, gofynnodd y swyddog Allgymorth gyfres o gwestiynau a luniwyd gan y Clerc a'r Ymchwilydd. Rhestrir y cwestiynau a ofynnwyd yn Atodiad A.



Alice Lediard a Dale Johnson, Rheolwyr Gyfarwyddwyr TiaFi Design, Abercynon

Cefndir: Asiantaeth frandio yw TiaFi Design, sy'n rhoi brand gweledol i gwmnïau ac yn ei drosglwyddo i amrywiol lwyfannau (ar-lein a nwyddau).



Carwyn Williams, perchennog Café Espresso, Castell-nedd.

Cefndir: Sefydlodd Carwyn ei fusnes cyn gynted ag y cwblhaodd ei radd mewn Rheoli Busnes ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Am y ddwy flynedd gyntaf, bu'n rhedeg uned symudol yn ardal Abertawe cyn symud i eiddo sefydlog ym mis Ebrill eleni.



Francesca James, Ymgynghorydd Brandio Cyfryngau Cymdeithasol a Rheolwr Gyfarwyddwr Fresh Content Creation, Caerdydd

Cefndir: Nod Fresh Content Creation yw cynorthwyo cwmnïau a brandiau i ymgysylltu â darpar gwsmeriaid a phartneriaid drwy greu cynnwys a chyfryngau cymdeithasol.



Neil Cocker, Rheolwr Gyfarwyddwr "Dizzyjam", sef llwyfan e-fasnach a marchnata o Gaerdydd

Cefndir: Mae Neil yn chwarae rhan fawr ym mhrosiect Cardiff Start, sef grŵp o entrepreneuriaid, cwmnïau newydd, sylfaenwyr cwmnïau newydd, pobl greadigol, myfyrwyr a buddsoddwyr sy'n rhannu gwybodaeth, cyngor a chymorth ag entrepreneuriaid newydd.



Dan Fitzgerald, cyd-sylfaenydd "RecRoc", Risca

Cefndir: I ddechrau, roedd Dan yn cymryd cyfraniadau ar gyfer offerynnau cerdd i gael eu defnyddio mewn prosiectau cymunedol. Gyda cymorth ICE Cymru mae Jack (a'i bartner busnes) bellach yn gallu cynnal digwyddiadau a rhoi gwersi cerddoriaeth preifat ac maent wrthi'n chwilio am gyllid i brynu dyfeisiadau iPad i ddysgu cerddoriaeth i ddisgyblion ym maes Addysg Anghenion Arbennig.



Jack Cooper, cyd-sylfaenydd "RecRoc", Risca

Cefndir: I ddechrau, roedd Jack yn helpu i gymryd cyfraniadau ar gyfer offerynnau cerdd i gael eu defnyddio mewn prosiectau cymunedol. Gyda cymorth ICE Cymru mae Jack (a'i bartner busnes) bellach yn gallu cynnal digwyddiadau a rhoi gwersi cerddoriaeth preifat ac maent wrthi'n chwilio am gyllid i brynu dyfeisiadau iPad i ddysgu cerddoriaeth i ddisgyblion ym maes Addysg Anghenion Arbennig.



Gareth Jones, Capten a Chyfarwyddwr Arloesedd - ICE Cymru, Caerffili

Cefndir: Yn wreiddiol o Langollen, sefydlodd Gareth ICE Cymru fel canolfan gymorth ar gyfer busnesau newydd yng Nghymru. Mae ICE Cymru yn creu cymuned ar gyfer busnesau newydd ac yn eu cynorthwyo i ddod o hyd i'r cysylltiadau perthnasol ar gyfer adeiladu'r busnes hwnnw.



Huw Williams, Cynorthwydd Marchnata, ICE Cymru a sylfaenydd llyfr comics "Age Revolution", Caerffili.

Cefndir: Cafodd Huw swydd gydag ICE Cymru drwy Twf Swyddi Cymru. O hyn, mae wedi gallu sefydlu ei gwmni llyfrau comics ei hun, sef "Cosmic Anvil", sydd wedi arwain at greu "Age Revolution", ei gyfres gyntaf o lyfrau comics.



Kylie Hearne, Llysgennad Prince's Trust 2012 a sylfaenydd "Stardust Boutique", Sgeti - Abertawe

Cefndir: Ar ôl dechrau ei busnes yn gwerthu ei heiddo personol ar safleoedd arwerthu ar y rhyngwrwyd, agorodd Kylie siop ffasiwn yn 2012 mewn eiddo sefydlog gyda chymorth y Prince's Trust, tra roedd hefyd yn cynrychioli'r ymddiriedolaeth fel Llysgennad Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc.



Sian Jones, Swyddog Menter i Sir y Fflint, Fflint

Cefndir: Fel Swyddog Menter, mae Sian yn cefnogi ymgyrchoedd busnes a gaiff eu cynnal yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych sy'n rhoi grantiau o hyd at £2,000 i entrepreneuriaid ifanc yn yr ardal.



Gwion Jones, Agrivention, Dinas Mawddwy

Cefndir: Mae Gwion yn ymgymryd â phrosiectau amaethyddol fel rhan o'i fusnes, gyda'r nod o ddatrys problemau amaethyddol sy'n cael effaith ar ffermwyr o ddydd i ddydd.



"Target", Ysgol Uwchradd St Joseph, Wrecsam

Cefndir: Cyfweiliad yn rownd derfynol ranbarthol gogledd Cymru o ddigwyddiad Menter yr Ifanc Cymru yn y Rhyl, yn golygu blychau bach o ddeunyddiau ysgrifennu mewn ysgolion.



Ysgol Uwchradd Prestatyn, Pennaeth y Chweched a Phennaeth Astudiaethau Busnes

Cefndir: Mae'r ddau yn athrawon yn Ysgol Uwchradd Prestatyn, sydd wedi bod yn rhoi timau at ei gilydd ar gyfer y gysadleuaeth Menter yr Ifanc ers dros 8 mlynedd



David a Jordan, Coleg Llandrillo Menai, y Rhyl

Cefndir: Cyfweiliad yn rownd derfynol ranbarthol gogledd Cymru o ddigwyddiad Menter yr Ifanc Cymru yn y Rhyl, yn gwerthu setiau bach o ddeunydd ymolchi cludadwy y gellir eu cario ar awyrennau.



Tîm Ysgol Uwchradd Eirias, Bae Colwyn

Cefndir: Cyfweiliad yn rownd derfynol ranbarthol gogledd Cymru o ddigwyddiad Menter yr Ifanc Cymru yn y Rhyl, yn gwerthu'r cyfle i gael argraffu swigod enwau ar grysau 'T' a nwyddau eraill.




Tîm Ysgol Uwchradd Prestatyn, Prestatyn

Cefndir: Cyfweiliad yn rownd derfynol ranbarthol gogledd Cymru o ddigwyddiad Menter yr Ifanc Cymru yn y Rhyl, yn gwerthu "Star Jars" y gellir eu hailddefnyddio, ac sy'n cynnwys cynhwysion sych ar gyfer pobi bisgedi gartref.



Jonathan Fry, Rheolwr Gyfarwyddwr, "Event Rater", Llandaf

Cefndir: Lansiodd Jonathan "Event Rater", sef gwasanaeth sy'n galluogi rheolwyr lleoliadau a threfnwyr digwyddiadau i bennu eu meini prawf eu hunain er mwyn cael adborth / sylwadau a graddiad gan bobl sy'n mynd i ddigwyddiadau, ym mis Ebrill 2012. Mae "Event Rater" wedi datblygu i gael ei gydnabod yn syniad busnes ymysg y pedwar uchaf, fel sydd wedi'u cofnodi ar restr fer "Gorsedd y Dreigiau 2012."



Rob Lo Bue, Sylfaenydd Applingua, Canol Dinas Caerdydd

Cefndir: Wedi dychwelyd ar ôl gweithio yn yr Almaen, sefydlodd Rob Applingua pan oedd yn 24 oed. Cwmni yw Applingua sy'n cyfieithu apps o bob cwr o'r byd.



Kieran Owens, perchennog busnes "Junk Trunk" ac "Etley Cleaning", Prifysgol Glyndwr, Wrecsam.

Cefndir: Cafodd "Junk Trunk" ei sefydlu gan Kieran pan oedd yn 17 oed. Bu'r cwmni'n masnachu ar draws Japan ac America, ac ar ôl 12 mis, roedd gan Kieran 12 o staff a throsiant o £460,000.

Atodiad A

Cwestiynau a ofynnwyd i bobl ifanc

Amdanoch chi

1. Allwch chi ddweud ychydig amdanoch chi eich hun a'r hyn rydych yn ei wneud fel entrepreneur ifanc? (natur eich busnes ac ati)
2. Sut brofiad yr ydych chi wedi'i gael fel entrepreneur ifanc yng Nghymru? Pa mor anodd yw hi i ddechrau busnes?

Y cymorth sydd ar gael

3. A ydych chi'n meddwl bod digon o gymorth ar gael i bobl ifanc fel chi i ddechrau busnes?
4. Pa fath o gymorth neu anogaeth yr ydych chi wedi'i chael i fod yn entrepreneur ac i ddechrau eich busnes eich hun?
5. A ddywedodd rhywun wrthych, neu a gawsoch chi wybodaeth am unrhyw gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynig i entrepreneuriaid ifanc? A ydych chi'n gwybod am Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuentid Llywodraeth Cymru ac, os felly, lle y clywsoch chi amdani?
6. Wrth ddewis eich busnes, a gawsoch chi'ch dylanwadu mewn unrhyw ffordd gan y cymorth sydd ar gael i sectorau penodol?

Gwahaniaethau rhanbarthol a gwahaniaethau eraill

7. A ydych chi'n meddwl bod siawns pobl ifanc o fod yn entrepreneur yn dibynnu o gwbl ar eu cefndir ac ar ba ran o Gymru y maent yn byw?
8. Ble yng Nghymru mae eich busnes a pha gymorth yr ydych chi wedi'i gael yn eich ardal eich hun?

Rôl y sector Addysg Uwch ac Addysg Bellach

9. Yn eich profiad chi, faint o gefnogaeth yr ydych chi'n feddwl y mae colegau a phrifysgolion yn ei roi i entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc? A ydych chi wedi cael unrhyw gymorth penodol?

Rhannu profiadau ag eraill

10. A ydych chi'n dod i gysylltiad â phobl ifanc eraill sy'n dechrau busnes ac yn gwneud pethau tebyg? A ydych chi'n cael cyfle i rannu profiadau â nhw ac i ddysgu oddi wrth eich gilydd?
11. Beth y mae eich ffrindiau a'ch teulu yn ei feddwl am y ffaith eich bod yn entrepreneur ifanc? A ydych chi'n teimlo'n wahanol i'ch cyfoedion oherwydd yr hyn rydych yn ei wneud?

Unrhyw sylwadau eraill

12. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yng Nghymru ac am eich profiadau chi? Dyma'ch cyfle i siarad yn uniongyrchol gyda'r rhai sy'n gwneud ac sy'n dylanwadu ar bolisiau yng Nghymru!

Cwestiynau i'r rhai sy'n ymwneud â chyflenwi: staff, darlithwyr ac ati.

Amdanoch chi

1. A allwch chi ddweud ychydig am eich gwaith a'ch profiad o helpu entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru?

Rôl y sector Addysg Uwch ac Addysg Bellach

2. I ba raddau yr ydych chi'n meddwl y mae entrepreneuriaeth wedi'i sefydlu yng ngholegau a phrifysgolion Cymru?

Y cymorth sydd ar gael

3. A ydych chi'n meddwl bod digon o adnoddau ac arian yn cael eu targedu at hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yng Nghymru?

4. Beth ydych chi'n ei feddwl yw'r prif broblemau neu rwystrau sy'n wynebu pobl ifanc sy'n awyddus i ddechrau busnes?

Polisi Llywodraeth Cymru

5. Faint o effaith yr ydych chi'n ei feddwl y mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth leuenctid Llywodraeth Cymru yn ei chael?

A yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw fath o gymorth i'r mentrau rydych chi'n ymwneud â nhw?

6. Sut y gall Llywodraeth Cymru wneud mwy i wella'r cymorth y mae'n ei gynnig i hybu entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc a'r modd y mae'n gwneud hynny?

Gwahaniaethau rhanbarthol a gwahaniaethau eraill

7. A ydych chi'n credu bod gwahaniaeth mawr yn y cymorth sydd ar gael i entrepreneuriaid mewn gwahanol rannau o Gymru?

8. A ydych chi'n meddwl bod cefndir personol, materion economaidd-gymdeithasol, cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dylanwadu ar lwyddiant pobl ifanc fel entrepreneuriaid?

Dysgu gan eraill

9. Sut yr ydych chi'n meddwl y gall sefydliadau a prosiectau unigol ddysgu orau oddi wrth enghreifftiau llwyddiannus eraill yng Nghymru, y DU neu'r tu hwnt?



Unrhyw sylwadau eraill

10. A oes yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud am entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yng Nghymru ac am eich gwaith a'ch profiadau chi?